Cyngor Fferyllol Cyffredinol

# Canllaw i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol

Mehefin 2018

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2018

# Cynnwys


**Ynglŷn â'r canllaw hwn** .......... 4

**Rhagymadrodd** .......... 6

**Atebolrwydd** .......... 7

**Canllaw i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol** .......... 9

1. Gosod lefelau staffio ac ymateb i bryderon am ddiogelwch cleifion .......... 10
2. Rolau arwain a rheoli .......... 12
3. Cynnal amgylchedd sydd wedi'i ganoli ar yr unigolyn .......... 13
4. Gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd .......... 14

# Ynglŷn â'r canllaw hwn

**Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol yw'r rheoleiddiwr ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Fel rhan o'n rôl, rydym n gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu bodloni trwy gydol eu**

Mae'r canllaw hwn yn egluro beth ddylai perchennog fferyllfa[1] ei wneud i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol a bodloni'r safonau a nodir dan Egwyddor 2 y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig.

Mae'r canllaw ar gyfer perchnogion fferyllfeydd, sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod y tîm fferyllol cyfan - gweithwyr fferyllol proffesiynol a'r holl staff sydd heb eu cofrestru - yn darparu gofal a gwasanaethau fferyllol diogel ac effeithiol.

Credwn hefyd y bydd y canllaw hwn yn ddefnyddiol i sefydliadau eraill sy'n cyflogi gweithwyr fferyllol proffesiynol ar draws ystod o leoliadau – er nad ydym yn rheoleiddio'r holl leoliadau hyn.

Dylech ddarllen y canllaw hwn ochr yn ochr â'n **safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig**, y mae'n rhaid i berchnogion fferyllfeydd eu bodloni, a'n **fframwaith gwneud penderfyniadau arolygu**. Mae'r safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrrestredig yn ymwneud â chreu a chynnal yr amgylchedd cywir, yn drefniadol a ffisegol, ar gyfer ymarfer fferylliaeth yn ddiogel ac effeithiol.

[1] Gall perchennog fferyllfa fod yn weithiwr fferyllol proffesiynol cofrestredig; fferyllydd sy'n unig fasnachwr, partner neu gyfarwyddwr, neu'n dechnegydd fferyllol fel partner neu gyfarwyddwr yn yr Alban; neu gall fod heb ei gofrestru fel partner neu gyfarwyddwr yn yr Alban; neu'n 'sefydliad corfforaethol'.

Mae ein safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol yn disgrifio sut y caiff gofal diogel ac effeithiol ei ddarparu drwy broffesiynoldeb ‘wedi’i ganoli ar yr unigolyn’. Felly, mae’n rhaid i chi hefyd fod yn gyfarwydd â’n **safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol** a’r **canllaw rydym wedi’i gyhoeddi** ar ein gwefan er mwyn helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol i ddefnyddio ein safonau a bodloni eu rhwymedigaethau proffesiynol.

Fel perchennog fferyllfa, dylech fod yn ymwybodol o’r canllaw hwn, gan mai chi sy’n gyfrifol am wneud yn siŵr y caiff ei ddilyn. Dylai pawb sydd yn y tîm fferyllol fod yn gyfarwydd â’r canllaw, yn cynnwys rheolwyr sydd â chyfrifoldeb dirprwyol. Os yw’r fferyllfa gofrestredig yn eiddo i ‘sefydliad corfforaethol’ (er enghraifft, cwmni neu sefydliad GIG) dylech sicrhau bod y fferyllydd arolygol yn ymwybodol o’r canllaw hwn.

# Rhagymadrodd

Mae pob aelod o'r tîm fferyllol yn darparu gwasanaeth hollbwysig i gleifion a'r cyhoedd. Er y gallai fferyllfeydd cofrestredig fod â gwahanol strwythurau o ran perchnogaeth, mae'n bwysig bod y diwylliant a'r prosesau yn y fferyllfa yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion a'r cyhoedd.

Cyfrifoldeb cyntaf perchennog fferyllfa yw sicrhau diogelwch cleifion. Yn ymarferol, mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr o'r canlynol:

- bod gan bob fferyllfa ddigon o staff medrus a chymwys i ddarparu gwasanaethau fferyllol diogel ac effeithiol
- bod staff yn gallu bodloni eu rhwymedigaethau proffesiynol ac yn gallu mynegi pryderon mewn amgylchedd sy'n annog agoreddrwydd, gonestrwydd a datblygiad parhaus

Mae anghenion pobl sy'n derbyn gofal gan fferyllfeydd cofrestredig, a sut y darperir gwasanaethau fferyllol, yn parhau i esblygu a newid. Oherwydd hyn, mae'r rolau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau fferyllol yn datblygu i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Dylai hyfforddiant a datblygiad ar gyfer timau fferyllol fod yn hyblyg wrth ymateb i'r newidiadau hyn, er mwyn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar staff y tîm i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd newydd y maent yn eu hwynebu. Mae angen i berchnogion hefyd asesu lefelau staffio yn barhaus a hefyd pa mor briodol yw'r gymysgedd sgiliau yn y fferyllfa er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.

Mae gweithio tîm effeithiol yn rhan hanfodol o ddarparu gofal o ansawdd da, wedi'i ganoli ar yr unigolyn. Perchnogion fferyllfeydd a gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd yn y sefyllfa orau i nodi anghenion cleifion a'r cyhoedd, a'r hyfforddiant a'r datblygiad sydd ei angen ar eu timau i ddarparu gofal sydd wedi'i ganoli ar yr unigolyn a pharhau'n gymwys o ran budd eu cleifion. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb a rennir i wneud yn siŵr bod gan unrhyw aelod o staff sy'n gysylltiedig mewn gwerthu a chyflenwi meddyginiaethau y wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni eu tasgau'n ddiogel ac effeithiol. Mae hyn yn cynnwys staff sydd heb eu cofrestru, a hwy yn aml yw'r pwynt cyswllt cyntaf gyda chleifion a'r cyhoedd.

# Atebolrwydd

## Perchnogion fferyllfeydd

Mae perchnogion fferyllfeydd yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth gwasanaethau fferyllol diogel ac effeithiol o fferyllfa gofrestredig. Maent yn atebol am wneud yn siŵr bod y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig yn cael eu bodloni, ac am greu a chefnogi amgylchedd lle gall gweithwyr fferyllol proffesiynol ddangos eu proffesiynoldeb a darparu gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn. Maent hefyd yn gyfrifol am osod y fframwaith rheoli o fewn pa un y gall gweithwyr fferyllol proffesiynol gyflawni eu cyfrifoldebau proffesiynol ac y gall pobl sydd mewn rolau arwain a rheoli weithredu.

Os yw'r fferyllfa'n eiddo i gorff corfforaethol, rhaid i'r cyfarwyddwyr sicrhau eu hunain bod y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig yn cael eu bodloni.

Fel perchennog fferyllfa dylech ystyried cyd-destun pob fferyllfa unigol. Mae hyn yn cynnwys:

- ystod y gwasanaethau a ddarperir
- cymysgedd sgiliau a nifer y staff sydd yn y tîm fferyllol
- yn fwyaf pwysig, anghenion cleifion a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r fferyllfa

Dylech ddefnyddio'r adnoddau sydd gennych (yn cynnwys staff a'u cymysgedd sgiliau) i sicrhau canlyniadau diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Rhaid i chi hefyd wneud yn siŵr bod gan eich staff yr hyfforddiant angenrheidiol sy'n briodol ar gyfer eu rolau.

Nid yw eich atebolrwydd eich hun yn effeithio ar gyfrifoldeb pwysig gweithwyr fferyllol proffesiynol unigol i gyfrannu at addysg, hyfforddiant a datblygiad y tîm neu bobl eraill, ac i hyrwyddo ac annog diwylliant o ddysgu a datblygu.

## Rolau arwain a rheoli

Rydym yn sylweddoli y bydd bob amser alwadau sy'n cystadlu â'i gilydd ar gyfer unrhyw un sy'n gweithredu fferyllfa gofrestredig. Gallai'r rhain fod yn rhai proffesiynol, rheoli, cyfreithiol neu fasnachol. Fodd bynnag, nid eitemau masnachu cyffredin yw meddyginiaethau. Ynghyd â gwasanaethau fferyllol, mae cyflenwi meddyginiaethau yn wasanaeth gofal iechyd syflaenol.

Mewn cwmni cyfyngedig, neu gwmni cyhoeddus cyfyngedig, mae gan fwrdd y cyfarwyddwyr rôl arwyddocaol mewn gwneud yn siŵr bod pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol gan fferyllfeydd cofrestredig. Mae'r Ddeddf Cwmnïau, a deddfwriaethau perthnasol eraill, yn nodi'r cyfrifoldebau ar gyfer cyfarwyddwyr. Mewn fferyllfa lle mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu i'r cyhoedd, ceir **canllaw pellach i gyfarwyddwyr ynglŷn â'u cyfrifoldebau ychwanegol wrth ddarparu gwasanaeth cyhoeddus**. Mae hyn yn berthnasol boed eu bod mewn sefydliad preifat neu wirfoddol.

Gall staff sydd mewn rolau arwain neu reoli, megis swyddi cangen neu ardal, fod yn weithwyr fferyllol proffesiynol neu'n weithwyr sydd heb eu cofrestru, ac maent yn gysylltiedig mewn sut y caiff gwasanaethau'r fferyllfa eu datblygu a'u darparu. Bydd y canllaw hwn yn helpu pawb sy'n gweithio mewn rolau arwain neu reoli i wybod beth rydym yn disgwyl iddynt ei wneud.

## Gweithwyr fferyllol proffesiynol

Mae fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn weithwyr proffesiynol a reoleiddir a rhaid iddynt fodloni'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys dangos arweinyddiaeth wrth ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol gyfrannu at addysg, hyfforddiant a datblygiad y tîm, neu bobl eraill, a dylent ddirprwyo tasgau dim ond i bobl sy'n gymwys ac wedi'u hyfforddi'n briodol. Rhaid iddynt hefyd arfer proses oruchwylio iawn.

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol gael sgyrsiau agored a gonest gyda pherchennog y fferyllfa ynglŷn ag unrhyw beth a allai effeithio ar eu gallu i ddarparu'r ystod lawn o wasanaethau y mae'r fferyllfa'n eu darparu.

## Staff heb eu cofrestru

Nid oes gan staff fferyllfa sydd heb eu cofrestru yr un cyfrifoldebau, gan na chânt eu rheoleiddio gan y CFfC. Fodd bynnag, disgwyliwn iddynt fodloni ein gofynion o ran hyfforddiant yn unol â'u rôl, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Mae staff fferyllfa sydd heb eu cofrestru yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau yn cynnwys paratoi meddyginiaethau, cynorthwywyr cownter meddyginiaethau, gyrwyr dosbarthu a rheolwyr fferyllfa. Efallai y byddant yn gweithio'n llawn amser, yn rhan amser neu'n achlysurol, a gallai eu cyfrifoldebau gynnwys:

- darparu gwybodaeth a chyngor ar symptomau a chynhyrchion
- gwerthu a chyflenwi meddyginiaethau
- derbyn a chasglu presgripsiynau, yn cynnwys cydosod a pharatoi eitemau a ragnodwyd
- dosbarthu meddyginiaethau
- archebu, derbyn a storio meddyginiaethau a stoc y fferyllfa
- arwain a rheoli timau

Mae staff fferyllfeydd sydd heb eu cofrestru yn atebol yn gyntaf i'w cyflogwr, a'r person hwnnw fel arfer fydd perchennog y fferyllfa neu ymddiriedolaeth neu fwrdd iechyd y GIG.

Dylai staff sydd heb eu cofrestru, o fewn yr adnoddau a ddarperir, gadw eu gwybodaeth a'u sgiliau wedi'u diweddaru. Dylent ond cyflawni rolau y mae ganddynt y sgiliau neu'r cymhwysedd angenrheidiol ar eu cyfer, neu, os ydynt yn hyfforddi ar gyfer y rôl honno, gyda goruchwyliaeth briodol gan aelod cymwys o'r tîm fferyllol.

# Canllaw i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol

Mae'r canllaw hwn wedi'i nodi dan Egwyddor 2 y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig.

### Egwyddor 2: Mae staff wedi eu grymuso ac yn gymwys i warchod iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd

Mae'r staff yr ydych yn eu cyflogi a'r bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw yn allweddol i arfer diogel ac effeithiol mewn fferyllfa. Rhaid i aelodau staff, ac unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau fferyllol, fod yn gymwys ac wedi'u grymuso i warchod iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd ym mhob peth a wnânt.

### Safonau

2.1 Mae digon o staff, â chymwysterau a sgiliau priodol, i sicrhau y darperir gwasanaethau fferyllol mewn ffordd ddiogel ac effeithiol

2.2 Mae gan staff y sgiliau, y cymwysterau a'r galluoedd angenrheidiol ar gyfer eu swyddogaethau a'r tasgau y maent yn eu gwneud, neu yn gweithio o dan oruchwyliaeth person arall pan fyddant yn hyfforddi

2.3 Gall staff gydymffurfio â'u rhwymedigaethau proffesiynol a chyfreithiol eu hunain ac maent wedi'u grymuso i ddefnyddio eu barn broffesiynol er lles cleifion a'r cyhoedd

2.4 Mae'r diwylliant yn un agored, gonest ac o ddysgu

2.5 Mae staff wedi'u grymuso i roi adborth a mynegi pryderon ynghylch cyrraedd y safonau ac unrhyw agwedd arall ar wasanaethau fferyllol

2.6 Nid yw cymhelliannau neu dargedau yn peryglu iechyd, diogelwch neu les cleifion a'r cyhoedd nac yn amharu ar farn broffesiynol y staff

# 1. Gosod lefelau staffio ac ymateb i bryderon am ddiogelwch cleifion

Bydd nifer y staff a'r gymysgedd sgiliau sydd ei hangen er mwyn darparu gwasanaethau fferyllol diogel ac effeithiol yn amrywio'n sylweddol rhwng fferyllfeydd, yn dibynnu ar gyd-destun pob fferyllfa. Fel perchennog y fferyllfa dylech ystyried cyd-destun unigol pob fferyllfa, gan gynnwys:

- symiau'r meddyginiaethau sy'n cael eu paratoi
- gwerthu neu gyflenwi meddyginiaethau dros y cownter
- sut a phryd y cyflenwir meddyginiaethau i gleifion (er enghraifft, 'prif ganolfan a lloerennau' neu fferyllfeydd dros y rhyngrwyd)
- y galwadau sy'n newid drwy gydol y dydd
- y boblogaeth a wasanaethir gan y fferyllfa, yn cynnwys cleifion agored i niwed
- newidiadau yn nifer y cleifion a'u hanghenion unigol
- defnydd technoleg, yn cynnwys roboteg
- yr ystod o wahanol wasanaethau a ddarperir
- gwahanol setiau sgiliau, gwybodaeth a phrofiad o fewn y tîm
- dysgu a datblygu parhaus y tîm fferyllol
- digwyddiadau a chamgymeriadau yn y gorffennol, a'r rhesymau drostynt
- adborth gan gleifion ac aelodau'r cyhoedd

Golyga hyn bod yn rhaid i chi ddefnyddio dull wedi'i deilwra at gyfer lefelau staffio; un sy'n hyblyg ac yn gwneud yn siŵr bod pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol gan bob fferyllfa gofrestredig.

Er mwyn bodloni'r safonau dan Egwyddor 2 rydym yn disgwyl i chi fel perchennog fferyllfa wneud yn siŵr:

1. eich bod yn cynnal asesiadau risg sy'n benodol i'r fferyllfa a'r tîm sy'n gweithio yno
2. bod sut yr ydych yn rheoli risgiau yn cynnwys gweithdrefnau er mwyn dod i farn ynglŷn â nifer priodol y staff a'r gymysgedd sgiliau
3. eich bod yn datblygu cynllun staffio, gan weithio gyda'r fferyllydd cyfrifol, sy'n rhoi ystyriaeth i sut yr ydych yn rheoli risgiau a chyd-destun unigol y fferyllfa
4. bod y fferyllydd cyfrifol a holl aelodau'r tîm fferyllol yn ymwybodol o'r cynllun staffio ar gyfer eu fferyllfa benodol hwy
5. bod gan bob fferyllfa unigol gynllun wrth gefn ar gyfer absenoldeb staff tymor byr a hirdymor, boed hynny wedi'i gynllunio ai peidio
6. eich bod yn adolygu nifer gwirioneddol y staff yn y fferyllfa sy'n gymwys ac wedi'u hyfforddi i ddarparu'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir, yn

erbyn cynllun staffio – yn unol â gwasanaethau sy'n newid, llwyth gwaith, adborth a phryderon

7. bod pob aelod o'r tîm fferyllol yn gwybod gyda phwy i gysylltu yn eu fferyllfa unigol neu'r sefydliad ehangach i fynegi pryderon heb fod ofn gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys pan nad yw cynlluniau staffio yn effeithiol, ac efallai pan nad yw'r lefel staffio a'r gymysgedd sgiliau yn briodol mwyach
8. bod gan bawb yn y tîm fferyllol y wybodaeth a'r hyder i fynegi pryderon am ansawdd gwasanaethau fferyllol ac, yn arbennig, bryderon am ddiogelwch cleifion
9. bod systemau, tystiolaeth a chofnodion i ddangos y camau a gymerwyd i ddelio ag unrhyw bryderon a fynegwyd, fel na beryglir diogelwch cleifion. Mae hyn yn cynnwys cofnodi achosion pan fo'r fferyllfa ar gau yn ystod oriau gweithredu arferol
10. rhoddir adborth i'r tîm fferyllol am y pryderon a fynegwyd a sut yr ymdriniwyd â hwy
11. bod y rhesymau dros unrhyw gamgymeriadau o ran paratoi meddyginiaethau yn cael eu hasesu a bod camau cywiro priodol yn cael eu cymryd er mwyn dysgu gan y rhain. Mae hyn yn cynnwys camau i newid nifer neu gymysgedd sgiliau'r tîm fferyllol pan fo angen
12. bod y tîm fferyllol yn cofnodi, adolygu a dysgu gan ddigwyddiadau fu bron a digwydd, camgymeriadau, neu ddigwyddiadau eraill

## 2. Rolau arwain a rheoli

Rhaid i berchnogion fferyllfeydd wneud yn siŵr y gall gweithwyr fferyllol proffesiynol sy'n gweithio iddynt fodloni eu rhwymedigaethau proffesiynol a chyfreithiol eu hunain a'u bod yn gallu arfer eu barn broffesiynol er budd cleifion a'r cyhoedd.

Mae gan reolwyr sydd â chyfrifoldeb am arwain a rheoli timau, ac am gydlynu nifer o agweddau ar y gweithrediadau fferyllol o ddydd i ddydd, rôl bwysig i'w chwarae. Mae gan aelodau'r bwrdd, pobl mewn rolau arwain a rheolwyr gyfrifoldebau sylweddol, a dylanwad dros ddiwylliant, arferion ac amgylchedd y fferyllfa, a sut y cynhelir darpariaeth gwasanaethau fferyllol diogel ac effeithiol.

Er mwyn bodloni'r safonau dan Egwyddor 2, rydym yn disgwyl i chi fel perchennog fferyllfa wneud yn siŵr bod y rheini sydd mewn rolau arwain a rheoli:

1. yn deall y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y maent yn gweithio oddi mewn iddi a chyfrifoldebau perchennog y fferyllfa
2. yn gyfarwydd â'r safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig a gyda'r canllaw hwn
3. yn gyfarwydd â'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, a'r canllawiau ategol a gyhoeddir gennym
4. yn deall bod gan fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, fel gweithwyr fferyllol proffesiynol a reoleiddir, gyfrifoldebau proffesiynol. Mae'r rhain yn cynnwys gwneud diogelwch cleifion yn flaenoriaeth a gweithredu i gymryd camau i ddiogelu lles cleifion a'r cyhoedd
5. yn deall bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn atebol i'r CFfC am fodloni'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol
6. yn gwneud yn siŵr bod pawb yn y tîm fferyllol yn gwybod ac yn deall y gweithdrefnau sydd ar waith yn y fferyllfa, yn ogystal â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau eu hunain a rhai aelodau eraill y tîm
7. yn gwneud yn siŵr bod gweithwyr fferyllol proffesiynol ac aelodau staff sydd heb eu cofrestru yn cael eu cefnogi a'u grymuso i ymdrin â sefyllfaoedd heriol yn hyderus a phroffesiynol, boed hynny'n golygu cael y sgyrsiau cywir gyda rheolwyr neu wybod pryd a sut i fynegi pryder wrth berchennog y fferyllfa
8. yn deall sut i reoli'n briodol unrhyw nodau personol neu sefydliadol, cymhelliannau neu dargedau heb gyfaddawdu barn broffesiynol staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol
9. yn gwneud yn siŵr bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol yn gallu gweld yn hawdd pwy yw'r staff a pha rôl y maent yn ei chyflawni

## 3. Cynnal amgylchedd sydd wedi'i ganoli ar yr unigolyn

Mae bod â staff sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau cywir yn un rhan o fod yn gallu darparu gofal diogel ac effeithiol. Mae hi'r un mor bwysig i'r tîm fferyllol ddangos yr agweddau a'r ymddygiadau y mae pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau fferyllol yn disgwyl eu gweld. Gall ymddygiadau a sgiliau rhyngbersonol - megis cyfathrebu effeithiol a phroffesiynoldeb - dawelu meddwl cleifion a gwneud gwahaniaeth i'r gofal y maent yn ei dderbyn.

Er mwyn bodloni'r gofynion dan Egwyddor 2, rydym yn disgwyl i chi fel perchennog fferyllfa wneud yn siŵr bod pawb yn y tîm fferyllol:

1. yn darparu gofal tosturiol sy'n cael ei addasu i ddiwallu anghenion pob unigolyn
2. yn gallu addasu eu dull cyfathrebu, ac adnabod a lleihau rhwystrau i gyfathrebu effeithiol
3. yn ymwybodol o weithdrefnau diogelu ac yn gallu nodi pobl a allai fod yn agored i niwed
4. yn helpu unigolion i wneud dewisiadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles
5. yn gweithio gyda darparwyr gofal iechyd eraill i ddarparu gofal cydgysylltiedig ac arddangos gweithio tîm effeithiol
6. yn cael eu hannog i ofyn cwestiynau priodol i gleifion er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn rhoi cyngor addas
7. yn adnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth, ac yn parchu gwahaniaethau diwylliannol – gan wneud yn siŵr bod pob person yn cael ei drin yn deg beth bynnag fo'i werthoedd a'i gred
8. yn deall egwyddorion preifatrwydd a chyfrinachedd[2] ac yn rhoi'r rhain ar waith
9. yn cymryd camau i gynnal preifatrwydd a chyfrinachedd ac i sicrhau bod trafodaethau ddim yn cael eu clywed gan bobl sydd ddim yn rhan yng ngofal yr unigolyn
10. yn deall eu cyfrifoldebau am gadw cofnodion wedi'u diweddaru, yn gyflawn ac yn gywir, ac am storio gwybodaeth yn unol â gweithdrefnau sefydledig

[2] **Trosolwg o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)**

# 4. Gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd

Mae'r CFfC yn nodi isafswm y gofynion hyfforddiant ar gyfer staff fferyllfa. Fodd bynnag, gwyddom hefyd nad yw addysg a hyfforddiant yn aros yn eu hunfan, a rhaid iddo adlewyrchu datblygiadau mewn meddyginiaethau a thechnoleg a natur amrywiol gwasanaethau fferyllol. Rhaid i berchnogion fferyllfeydd wneud yn siŵr bod gan staff y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd priodol ar gyfer eu rôl a'r tasgau a gyflawnir ganddynt, a'u bod yn gweithio o dan oruchwyliaeth person sydd wedi'i hyfforddi'n briodol tra'u bod yn hyfforddi.

Dylai'r gofynion o ran addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithlu mor amrywiol fod yn hyblyg a chymesur i ganiatáu i'r tîm fferyllol ymateb i newidiadau mewn arfer fferyllol.

## 4.1 Gofynion addysg a hyfforddiant cychwynnol

Er mwyn bodloni'r safonau dan Egwyddor 2, rydym yn disgwyl i chi fel perchennog fferyllfa i wneud yn siŵr:

1. eich bod yn deall yr opsiynau ar gyfer darpariaeth hyfforddiant perthnasol, fel y gallwch wneud penderfyniadau ynglŷn â pha gyrsiau sy'n briodol ar gyfer eich staff. Gallai hyn gynnwys sgwrsio'n uniongyrchol â darparwyr cyrsiau a gweithwyr fferyllol proffesiynol ynglŷn ag anghenion hyfforddiant
2. y cynhelir rhaglen ymsefydlu benodol i rôl cyn gynted â phosibl ar gyfer pob aelod newydd o'r tîm fferyllol
3. eich bod yn cydnabod ac yn mynd i'r afael â'r gwahaniaethau mewn gofynion cymhwysedd ar gyfer lleoliadau ymarfer penodol ac ar gyfer y mathau o wasanaethau a ddarperir yn y lleoliad hwnnw
4. eich bod yn asesu cymhwysedd staff pan fyddant yn dechrau yn eu rôl, ac yn gweithio mewn partneriaeth â gweithiwr fferyllol proffesiynol i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â pha wybodaeth neu hyfforddiant pellach y gallai fod ei angen ar staff. Dylai hyn gynnwys ystyried addysg a hyfforddiant blaenorol yr aelod staff, ei gymwysterau a'i brofiad gwaith
5. bod hyfforddiant cychwynnol yn ymdrin â set gyffredin o sgiliau a galluoedd sy'n cynnwys proffesiynoldeb, sgiliau cyfathrebu da a gweithio effeithiol mewn timau amlbroffesiwn
6. bod staff fferyllfa heb eu cofrestru sydd angen addysg a hyfforddiant i fodloni'r lefel cymhwysedd gofynnol ar gyfer eu rôl yn cael eu cofrestru ar raglen hyfforddiant briodol o fewn tri mis i ddechrau yn eu rôl
7. bod staff fferyllfa heb eu cofrestru sy'n ymwneud mewn paratoi a chyflenwi meddyginiaethau yn:
   - gymwys hyd at lefel sy'n gyfatebol i elfennau'r wybodaeth ar sgiliau

perthnasol cymhwyster Lefel 2 a gydnabyddir yn genedlaethol yn Lloegr a Chymru, neu gymhwyster Lefel 5 yn yr Alban, neu

- yn hyfforddi tuag at hyn ac yn gweithio dan oruchwyliaeth aelod o staff cymwysedig

8. eich bod yn cadw cofnodion cyflawn a chywir o hyfforddiant holl aelodau staff, sy'n hygyrch i'r rheini sydd eu hangen

## 4.2 Dysgu a datblygu

Er mwyn cynnal tîm fferyllol cymwys ac sydd wedi'i rymuso, mae'n hollbwysig bod dysgu a datblygu yn parhau y tu hwnt i addysg a hyfforddiant cychwynnol. Dylai perchnogion fferyllfeydd, sy'n gweithio gyda gweithwyr fferyllol proffesiynol:

- annog a galluogi'r holl staff – yn arbennig y rheini sy'n dal i hyfforddi – i roi ystyriaeth i'w perfformiad, gwybodaeth a sgiliau, ac i nodi anghenion dysgu a datblygu, a'u
- cefnogi i fodloni'r anghenion hynny, er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rôl

Dylai staff gael eu grymuso i ddefnyddio eu barn, gwneud penderfyniadau pan fo hynny'n briodol a bod yn rhagweithiol o ran budd cleifion a'r cyhoedd.

Er mwyn bodloni'r safonau dan Egwyddor 2, disgwyliwn i chi fel perchennog fferyllfa wneud yn siŵr:

1. eich bod yn deall anghenion dysgu a datblygu eich tîm ac yn cymryd camau priodol i fodloni'r anghenion hynny, wedi i chi benderfynu a allwch roi amser wedi'i ddiogelu ar gael ar gyfer dysgu a datblygu
2. bod y staff fferyllol yn gweithio o fewn cyfyngiadau eu cymhwysedd neu'n cyfeirio at staff arall, mwy cymwys, pan fydd angen iddynt wneud hynny
3. bod pawb yn y tîm fferyllol, gyda chymorth aelodau eraill y tîm, o fewn yr adnoddau a ddarperir, yn cadw eu gwybodaeth a'u sgiliau wedi'u diweddaru
4. bod gan reolwyr y cymhwysedd, y sgiliau a'r profiad sydd ei angen i gyflawni eu rôl
5. bod elfennau hanfodol hyfforddiant yn cael eu nodi ar gyfer pob rôl o fewn y tîm, a bod y rhain yn cael eu hadolygu a'u hail-asesu mewn ymateb i anghenion ac amgylchiadau sy'n newid, a bod unrhyw newidiadau a wneir yn digwydd mewn modd amserol
6. eich bod yn gallu dangos bod dysgu a datblygu yn digwydd
7. bod cynlluniau unigol a thîm ar waith i wneud yn siŵr nad yw staff fferyllol yn

cyflawni rolau nad ydynt wedi'u hyfforddi ar eu cyfer

8. eich bod yn defnyddio dull wedi'i deilwra ar gyfer dysgu a datblygu sy'n cael ei barhau drwy gyflogaeth yr unigolyn er mwyn gwneud yn siŵr bod gwybodaeth a sgiliau staff fferyllol yn parhau'n gyfoes

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am gynnwys y canllaw hwn, cysylltwch â'n Tîm Polisi a Safonau:**

**Policy and Standards Team**
**General Pharmaceutical Council**
**25 Canada Square**
**London**
**E14 5LQ**

**0203 713 8000**

**standards@pharmacyregulation.org**

**Rydym hefyd wedi cynhyrchu canllawiau ar bynciau eraill a allai fod yn ddefnyddiol i chi:**

**www.pharmacyregulation.org/standards/guidance**

**Cyngor Fferyllol Cyffredinol**
**25 Canada Square, Llundain E14 5LQ**
F **020 3713 8000**
E **info@pharmacyregulation.org**

**@TheGPhC**
**TheGPhC**
**/company/general-pharmaceutical-council**
**www.pharmacyregulation.org**